


Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Glan-y-fferi

Prosbectws



Plannu heddiw, medi yfory



Eco-Schools 2015
Platinum Award



Gwobr Platinwm
Eco-Sgolion 2015

YSGOL GYNRADD WIRFODDOL REOLEDIG GLAN-Y-FFERI

“Plannu heddiw, medi yfory”

NODAU AC AMCANION

Prif nod yr ysgol yw rhoi'r cyfle i bob disgybl i ddatblygu i'w lawn botensial yn academaidd, yn ddiwylliannol, yn emosiynol, yn gymdeithasol ac yn gorfforol.

Er mwyn cyrraedd y nod hwn byddwn yn ymdrechu

- i ddatblygu meddyliau bywiog ac ymchwiliol er mwyn cynyddu deallusrwydd, gwybodaeth a sgiliau i baratoi'r disgyblion am y dyfodol
- i ddatblygu medrau sylfaenol ym mhob agwedd a phwnc a ddysgir yn yr ysgol
- i alluogi plant i gyfranogi'n llawn mewn cymdeithas lle defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng cyfathrebu ac i ddatblygu ymhellach deallusrwydd a pharch tuag at dreftadaeth a diwylliant Cymru
- i ddatblygu gwerthoedd moesol personol, parch at werthoedd crefyddol, a goddefgarwch tuag at hiliau a chrefyddau eraill a ffyrdd eraill o fyw
- i greu cysylltiad agos rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn i rieni ac athrawon weithio gyda'i gilydd er lles pob disgybl
- i greu ymwybyddiaeth o'r angen am lendid personol, moesgarwch a chwarteisi
- i hybu arferion diogelwch yn yr ysgol, y cartref a'r gymdeithas.

Cyflwyno ein Hysgol

Enw a chyfeiriad yr ysgol	Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Glan-y-Fferi Glan-y-Fferi Sir Gaerfyrddin SA17 5TB
Rhif ffôn	01267 267463
E-bost	admin@ferryside.ysgolccc.org.uk
Pennaeth Dros Dro	Mrs L. E. Howells
Athrawes	Miss E. Williams
Cynorthwywyr Addysgu	Mrs G. Burton Miss Leah Bonnell
Athro Ffidl	Mr N. Roberts
Athro Chwythbrennau	Mr P.Shindler
Swyddog Cynorthwyo Ysgolion	Mrs H. Williams
Gofalwraig	Mrs C. Buckley
Glanhawraig	Mrs C. Buckley
Gweinyddes Arian Cinio	Mrs L. Jones
Cynorthwywraig Cegin	Mrs J.Millross
Cynorthwywragedd Canol Dydd	Mrs G. Burton Miss L.Bonnell Mrs J.Millross
Clwb Brecwast	Mrs G.Burton Miss L.Bonnell Mrs J.Millross
Ffrindiau'r Fferi	Mrs L.Jones Mrs G.Burton

Cofiwch – os oes gennych unrhyw bryderon cysylltwch â'r pennaeth yn syth.

Corff Llywodraethol Ysgol Wirfoddol Reoledig Glan-y-Fferi

Cadeirydd y Llywodraethwyr (Awdurdod Addysg Leol)	Mrs Mair Stephens d/o Ysgol G(W)R Glan-y-Fferi Glan-y-Fferi Sir Gaerfyrddin SA17 5TB
Is Gadeirydd Mrs Rh.Eyton Jones	Sylfaen
Llywodraethwyr Mrs S.Davies	Cynrychiolydd Rhieni
Mrs Rh. Eyton-Jones	Sylfaen
Rev.W.Lambert	Sylfaen
Mrs D. King	Cynrychiolydd Rhieni
Mrs L. E. Howells	Pennaeth Dros Dro
Mrs A Beynon	Cynrychiolydd Rhieni
Mrs G. Squires	Cynrychiolydd y Gymuned
Miss E. Williams Mrs R.Harley	Cynrychiolydd Athrawon Cynrychiolydd yr Awdurod Lleol
Mrs C.Lily	Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol
Erail Parch. P. Johnes	Ymwelydd yr Esgob
Clerc i'r Corff Llywodraethol	Mrs H. Williams Ysgol G(W)R Glan-y-Fferi Glan-y-Fferi Sir Gaerfyrddin SA17 5TB
Llywodraethwr sy â gofal am Anghenion Arbennig Mrs Rh. Eyton-Jones	
Swyddog Amddiffyn Plant (Llywodraethwr)	Mrs Rh. Eyton-Jones

Trefniadau Delio â Chwynion

Mae trefniadau sefydledig i ddelio â chwynion ynglŷn â chwricwlwm yr ysgol, addoli ar y cyd a materion perthnasol eraill. Mae copi o'r polisi ar gael yn yr ysgol.

Yn y lle cyntaf dylai cwynion gael eu gwneud i'r athrawes ddosbarth. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i ddatrys y mater ar y lefel hwn. Ei chyfrifoldeb hi yw hysbysu y brifathrawes os oes angen. Os yw'r pryder ynglŷn ag ymddygiad y pennaeth dylai'r mater gael ei roi o flaen Cadeirydd y Llywodraethwyr.

Datganiad ar Ethos Crefyddol Ysgol G(W)R Glan-y-Fferi

Gan gydnabod ei sylfaen hanesyddol bydd yr ysgol yn cadw ac yn datblygu ei chymeriad crefyddol yn unol ag egwyddorion yr Eglwys yng Nghymru ac mewn partneriaeth â'r Eglwys ar lefel plwyf ac esgobaeth.

Nod yr ysgol yw gwasanaethu ei chymuned trwy ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf o fewn cyd-destun cred ac ymarfer Cristnogol. Mae'n annog dealltwriaeth o ystyr ac arwyddocâd ffydd, ac yn hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol trwy'r profiad y mae'n ei gynnig i'w holl ddisgyblion.

Math o Ysgol a'i Lleoliad

Ysgol wirfoddol, gynradd, gydaddysgol, ddyddiol yw Glan y Fferi. Fe'i hadeiladwyd yn y flwyddyn 1856, a lleolir yr adeilad garreg lwyd, nodweddiadol o Oes Fictoria, yng nghanol y pentref sydd ryw dair milltir o dref Cydweli a naw milltir o dref Caerfyrddin. Yn fras y dalgylch yw plwyf Sant Isfael, sy'n cynnwys Glan-y-fferi, Llansaint, Sant Isfael, Broadway a Broadlay.

Dysgir y dau ddosbarth yn y prif adeilad. Mae dau adeilad wrth gefn yr ysgol. Defnyddir un fel ffreutur ac mae'r llall yn cynnwys dwy ystafell ddosbarth. Defnyddir i amryw bwrpas gan gynnwys neuadd a chanolfan adnoddau. Mae'r Clwb ar ôl Ysgol yn cyfarfod dwy noson yr wythnos yn un o'r ystafelloedd hyn.

Mae ein hardal waith a chwarae allanol yn datblygu'n barhaol, gyda glaswellt wrth flaen yr Ysgol a gwelyau blodau a llysiau, sy hefyd yn cefnogi ein prosiectau Eco a Bwyta Iach.

Polisi Iaith

Yn unol â pholisi iaith ysgolion Sir Gaerfyrddin ein prif nod yn yr ysgol yw dysgu'r plant i fod yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg, erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd i'w galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Cymraeg yw prif iaith adran y babanod er mwyn galluogi'r plant i ddatblygu sylfaen gadarn yn yr iaith. Cyflwynir y Gymraeg â sensitifrwydd i ddysgwyr gan barchu eu mamiaith. Nid oes yn rhaid i'r plant fedru'r Gymraeg cyn mynychu'r ysgol ac yn gyffredinol maent yn dechrau deall yn gyflym iawn. Cyflwynir dysgu Saesneg yn ffurfiol wrth i blentyn symud i Gyfnod Allweddol 2. Meithrinir ymagwedd gadarnhaol tuag at y ddwy iaith o'r cychwyn cyntaf. Gellir trosglwyddo sgiliau ieithyddol o un iaith i'r llall, a bydd y datblygiad mewn un iaith yn atgyfnerthu ac o gymorth i'r llall.

Gwasanaeth Bws am Ddim

Darparir gwasanaeth bws yn rhad ac am ddim i blant pum mlwydd oed a hŷn sy'n byw dros ddwy filltir o'r ysgol. Ceir ffurflenni cais o'r ysgol a gellid hefyd gwneud ceisiadau ar lein i adran trafniadaeth Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Derbyn Plant Newydd

Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Addysg Leol, derbynnir plant i'r ysgol ar ddechrau'r tymor o'u pedwerydd pen-blwydd.

Dechrau Mis Medi	Plant sy'n bedair rhwng 1 ^{af} o Fedi a'r 31 ^{ain} o Ragfyr
Dechrau Mis Ionawr	Plant sy'n bedair rhwng 1 ^{af} o Ionawr a'r 31 ^{ain} o Fawrth
Dechrau Mis Ebrill	Plant sy'n bedair rhwng 1 ^{af} o Ebrill a'r 31 ^{ain} o Awst

Rhaid cofrestru plant ar-lein ar www.carmarthenshire.gov.uk. Mae Swyddog Cefnogi'r Ysgol yn hapus i helpu cofrestru'ch plentyn os nad oes gennych fynediad i'r we.

Gwneir trefniadau i blentyn ymweld â'r ysgol yn achlysurol am hanner diwrnodau neu ddiwrnodau llawn yn y tymor cyn iddo/iddi ddechrau ysgol. Rhoddir pecyn cychwynnol gan yr ysgol sy'n cynnwys amryw o ffurflenni a gwybodaeth.

Mae croeso i blant a'u rhieni ymweld â'r ysgol ar unrhyw bryd. Byddai o help mawr petai rieni yn cysylltu â'r ysgol yn gyntaf i wneud apwyntiad i sicrhau nad oes gormod o amharu ar waith bob dydd yr ysgol.

Cytundeb Ysgol–Cartref

Mae gan yr ysgol gytundeb ysgol–cartref sy'n amlinellu disgwyliadau'r ysgol, rhiant a disgybl. Gofynnir yn garedig i rieni newydd i arwyddo copi o'r cytundeb a'i anfon yn ôl i'r ysgol.

Diwrnod Ysgol

Sesiwn y bore	9.00yb–12.00yp
Egwyl y bore i'r Cyfnod Sylfaen	10.30yb-10.50yb
Cyfnod Allweddol 2	10.35yb–10.50yb

Amser cinio 12.00yp–1.00yp

Prynhawn	1.00yp–3.15yp
Egwyl y prynhawn i'r Cyfnod Sylfaen	2.00yp–2.15yp
Cyfnod Alweddol 2	2.05yp-2.15yp

Rhoddir pwyslais ar brydlondeb ar bob achlysur. I gynorthwyo rhieni mae Clybiau Brecwast a Hwyr ar gael (gweler trosodd). Er mwyn sicrhau eu diogelwch ni ddylai'r plant gyrraedd yr ysgol cyn 8.45yb ac ni ddylent oedi gormod cyn cael eu casglu ar ddiwedd diwrnod ysgol. Rhaid i'r plant sy'n cyrraedd ysgol cyn 8.45yb fynychu'r Clwb Brecwast a leolir yn y ffreutur.

Bydd cofrestr y bore yn cael ei gadw ar agor tan 9.30yb a chofrestr y prynhawn tan 1.30yp. Os na fydd eich plentyn/plant yn yr ysgol cyn yr amserau hyn ac os nad yw'r ysgol wedi cael ei hysbysu am salwch, yna ystyrir yr absenoldeb fel absenoldeb heb ganiatâd. Mae gan yr ysgol gofrestr electroneg ac mae'n cadw llyfr hwyr yn unol â chanllawiau'r sir.

Os oes unrhyw newid yn nhrefniadau casglu plentyn o'r ysgol a wnewch chi fod mor garedig â rhoi gwybod i'r athrawes ddsbarth neu'r pennaeth drwy lythyr neu ganiad ffôn. Dylai rhieni plant hyn sydd am iddynt gerdded adref ar eu pen eu hun o'r ysgol roi gwybodaeth yn ysgrifenedig i'r pennaeth.

Clwb Brecwast

Mae Clwb Brecwast ar agor o 8.00yb hyd 8.45yb gyda'r gweini olaf yn digwydd am 8:30yb. Dylai'r plant fynd yn syth i'r ffreutur wrth gyrraedd. Fe gânt eu goruchwylio gan ddwy aelod o staff, Gemma Burton, Jo Millross a Leah Bonnell. Y brecwast yw dewis o rawnfwyd a ffrwyth, tost a sudd ffrwyth neu laeth. Noder nad oes tâl am y cyfleuster hwn.

Clwb Ar ôl Ysgol - Ffrindiau'r Fferi

Mae'r Clwb yn cwrdd dwy noson yr wythnos ac mae'n cael ei rhedeg gan Fenter Cwm Gwendraeth: Dydd Mercher, a Dydd Iau. Mae un lle ar bymtheg bob nos a gofynnir i'r rhieni sicrhau lle i'w plentyn/plant drwy ysgrifennu ei enw/eu henwau ar y daflen ar ddrws stafell y clwb.

Oriau'r Clwb yw 3.30yp i 5.29yp i bawb. Rhoddir gwybodaeth i'r rhieni am ddiwyddiadau arbennig a'r taliad.

Yr Arweinydd Chwarae yw Mrs L.Jones a'r Weithwraig Chwarae yw Mrs G.Burton. Gellir cysylltu a'r Clwb drwy ffonio 07731857200.

Goruchwyliaeth

Goruchwylir y disgyblion gan oedolion

- yn y bore o 8.45yb (o 8.00yb os ydynt yn mynychu'r clwb brecwast)
- yn ystod egwyl y bore
- dros amser cinio
- yn ystod egwyl y prynhawn.

Mae pob athrawes yn sicrhau bod y disgyblion yn gadael yr ysgol neu'n mynychu'r Clwb ar ôl ysgol ar ddiwedd y dydd.

Cylch Meithrin/Ti a Fi Glan-y-Fferi

Mae Cylch Meithrin/Ti a Fi annibynnol yn rhedeg yn y Clwb Rygbi bob dydd Mawrth i rieni a phlant hyd at oed ysgol. Arweinir y Cylch gan Mrs L. Jones ac mae'n hybu gweithgareddau fel coginio, canu a celf a chreffft trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dod i'r clwb yn gyfle gwych i'r plant gyfarwyddo â'r ysgol cyn dechrau llawn amser.

Absenoldebau

I sicrhau diogelwch y plant gofynnir yn garedig i rieni rhoi gwybod i'r ysgol am absenoldeb plentyn *ar y bore cyntaf* ac i gwblhau ffurflen absenoldeb.

Os bydd gan blentyn apwyntiad wedi ei drefnu ymlaen llaw (er enghraifft gyda'r deintydd, gyda'r meddyg neu yn yr ysbyty) gofynnir i'r rhieni i roi gwybodaeth i'r athrawes ddosbarth ymlaen llaw. Gofynnwn i rieni wneud apwyntiadau tu allan i oriau Ysgol lle'n bosib.

Cynghorir rhieni i beidio fynd â'i plant allan o'r Ysgol am wyliau.

Pan fydd plentyn wedi bod yn absennol am unrhyw reswm mae angen eglurhad oherwydd rhaid i'r ysgol roddi rhesymau am absenoldebau ar y cofrestr electroneg.

Trefniant Dosbarth

Pan fo'n bosib mae tri dosbarth yn yr ysgol pob un wedi ei drefnu mewn grwpiau o allu cymysg. Mae trefniant dosbarth yn medru newid yn ôl rhif y staffio a rhifau'r plant ym mhob oedran.

Dosbarth 1	Cyfnod Sylfaen
Dosbarth 2	Cyfnod Allweddol 2

Trosglwyddo i Ysgol Gyfun

Trosglwyddir y plant i Ysgol Gyfun Bro Myrddin neu Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn un ar ddeg mlwydd oed.

Mae gan rieni, er hynny, hawl i ddanfon eu plant i unrhyw ysgol uwchradd o'u dewis, ar ôl ymgynghori â'r Swyddfa Addysg Leol.

Y Cwricwlwm

Rhoddir cyfleoedd am brofiadau ymarferol gan ddefnyddio adnoddau lleol lle'n bosib, mewn ffurf ymweliadau, lluniau a siaradwyr lleol. Fel hyn bydd y plant yn dysgu parchu eu hamgylchfyd.

Y Cyfnod Sylfaen: Meithrin, Dosbarth Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2

Ein nod yw darparu profiadau sy'n ddiddorol, perthnasol ac ystyrlon ac sy'n ymateb i anghenion y plentyn unigol. Mae'r dull integredig trawsgwricwlaidd yn cyfuno'r chwe maes datblygiad.

1. Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
2. Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
3. Datblygiad Mathemategol
4. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
5. Datblygiad Corfforol
6. Datblygiad Creadigol

Cyfnod Allweddol 2: Blynyddoedd 3–6

Bu newid i roi mwy o bwyslais i'r sgiliau dysgu. Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, Hanes, Daeryddiaeth, Technoleg Gwybodaeth, Cerdd, Ymarfer Corff, Dylunio a Thechnoleg a Chelf yw'r pynciau a ddysgwyd. Dysgir Addysg Grefyddol fel pwnc ychwanegol.

Mae'r Ysgol wedi mabwysiadu dull 'Cornerstones' o gynllunio'n thematig ar drefniant chwech wythnos i sicrhau cwricwlwm sy'n llydan, yn gytbwys, yn gyson ac yn heriol drwy'r Ysgol gyfan. Mae'r staff yn cynllunio o fewn fframwaith newydd Rhifedd a Llythrennedd ac yn gwahaniaethu yn ôl gallu.

Gwersi Cerdd

Rhoddir cyfle i blant ym mlynnyddoedd 3–6 gael gwersi ffidil, ac weithiau bydd offeryn ar gael gan y sir i'w fenthyg am gyfnod byr. Wedyn gofynnir i rieni brynu neu rentu offeryn. Mae gan flynyddoedd 3–6 y cyfle i gael gwersi chwythbrennau (ffliwt neu clarinet) Ceir gwybodaeth bellach yn yr ysgol. Mae CA2 yn derbyn gwersi recorder hefyd.

Gwersi Gemau

Mae cymryd rhan mewn gemau ac ymarfer corff yn rhan annatod o ddatblygiad plentyn. Mae'n rhoi amryw o brofiadau i blentyn gan hybu iechyd a hyder yn ogystal â rhoi mwynhad a phleser. Mae hefyd yn hybu cydweithio yn ogystal â datblygu sgiliau.

Mae gwersi ymarfer corff, sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn cymryd lle yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol. Defnyddir un dosbarth, yr iard, Neuadd y Pentref a'r Cae Chwarae i'r gwersi yma. Lle'n bosib daw hyfforddwyr chwaraeon allanol i fewn i addysu sgiliau fel rygbi aawns.

Yn ystod Tymor yr Haf cynhelir gwersi nofio dyddiol dros gyfnod o dair wythnos i ddisgyblion blynyddoedd 3–6 yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin.

Os nad yw plentyn i gymryd rhan mewn gwers ymarfer corff byddwn yn ddiolchgar i dderbyn llythyr o eglurhad neu alwad ffôn i esbonio'r mater.

Gwaith Cartref

Cyfnod Sylfaen: Meithrin, Dosbarth Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2

Rhoddir gwaith cartref yn ôl gofyn yr athrawes ddosbarth. Rhoddir gwaith cartref darllen yn rheolaidd a gofynnir i chi fel rhieni wrando ar eich plentyn yn darllen, i drafod y stori/llyfr gyda nhw ac i arwyddo'r llyfr priodol.

Cyfnod Allweddol 2: Blynyddoedd 3–6

Gosodir gwaith cartref ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 tua dwy neu dair gwaith yr wythnos. Fe fydd y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn ymestyniad o waith arferol yr ysgol. Os nad ydych fel rhieni yn dymuno i'ch plentyn gael gwaith cartref yna gofynnir i chi i roi eich cais yn ysgrifenedig i'r pennaeth.

Dylai'r gwaith gael ei gyflwyno mewn llyfr gwaith cartref yn daclus. Rhoddir gwaith cartref darllen yn rheolaidd a gofynnir i chi fel rhieni wrando ar eich plentyn yn darllen, trafod y cynnwys gyda nhw ac i arwyddo'r llyfr priodol.

Cyd-addoliad dyddiol

Cynhelir cyd-addoliad crefyddol yn ddyddiol, bob bore. Mae ymlyniadau gan Ysgol Glan-y-Fferi â'r Eglwys yng Nghymru ac mae'r ficer yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol.

Mae hawl gan rieni i eithrio eu plant o Addysg Grefyddol a chydaddoli a gellir gwneud hyn drwy wneud cais i'r pennaeth mewn llythyr neu drwy drafodaeth. Fe fydd plentyn sy'n cael ei eithrio o'r cydaddoli yn astudio gydag aelod o staff.

Addysg Rhyw

Cyflwynir Addysg Rhyw fel rhan o Gwricwlwm Datblygu Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn yr ysgol. Bydd ar gael i'r holl ddisgyblion gan gymryd i ystyriaeth oed, aeddfedrwydd, datblygiad a chredoau'r disgyblion. Fe'i gosodir yng nghyd-destun cariad, gofal, ystyriaethau moesol a gwerth bywyd teuluol.

Trefnir bod nyrs yr ysgol yn ymweld â'r plant hynaf i drafod agweddau sy'n ymwneud â 'Thyfu i fyny'.

Pan fo rhieni yn pryderu am Addysg Ryw fe allent dynnu eu plentyn allan o unrhyw ran o'r rhaglen nad yw'n gynwysedig yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn yr achos o gais ysgrifenedig, gwahoddir rhieni i drafod eu gofidiau gyda staff a/neu lywodraethwyr ac fe wneir trefniadau priodol i ddelio â dymuniadau rhieni lle bo hynny'n ymarferol bosibl.

Addysg Arbennig

Os gwelir fod problemau addysgol gan blentyn fe gysylltir gyda'r rhieni i gael trafod sut y mae orau i fynd ati i helpu'r plentyn.

Mae disgyblion sydd ag anghenion arbennig yn cael eu integreiddio i mewn i'r dosbarth. Mae cynorthwywagedd yn cymryd grwpiau ymyraeth yn ystod yr wythnos i helpu plant ag anghenion arbennig. Cysylltir gyda rhieni'r plant sydd ar y gofrestr Addysg Arbennig yn dymhorol a chaiff pob un gopi o Gynllun Addysgiadol Unigolyn ei plentyn.

Hefyd mae gwasanaeth seicolegol gan yr awdurdod. Cysylltir â'r rhieni mewn unrhyw achos lle gwelir angen y cymorth hwn.

Mwy Abl a Thalentog

Os yw plentyn yn cael ei ganfod i fod yn fwy abl a thalentog, rhoddir gwybodaeth i'r rhieni a bydd yr athrawon yn sicrhau bod ei plentyn yn cael ei herio o fewn y

dosbarth. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar wahaniaethu ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

Anabledd

Mae'r giât gefn yn fynedfa addas i gadair olwyn. Rhoddwyd rampiau i dair mynedfa yn y ddau gaban. Hefyd mae mynedfa addas i'r prif adeilad yn ffrynt yr ysgol.

Fe ofynnir am ddarpariaeth addas ar gyfer unrhyw blentyn ag anghenion eraill a fyddai'n dechrau yn yr ysgol.

Cyfleoedd Cyfartal

Mae gan yr ysgol bolisi cyfleoedd cyfartal. Pwrpas y polisi yw sicrhau bod gan bob disgybl fynediad cyfartal i gwricwlwm cytbwys, eang a pherthnasol. Mae hefyd yn sicrhau fod gan yr holl ddisgyblion gyfleoedd cyfartal i ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol, a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae copi o'r polisi ar gael yn yr ysgol.

Recordio ac Asesu

Cedwir ffeil ar bob disgybl o'r diwrnod cyntaf y mae ef/hi yn dechrau ysgol sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r plentyn. Yn achlysurol rhoddir esiamplau o waith y plant a phrofion safonedig mewn ffeil a medrir edrych arnynt fel bo angen.

Mae pob athrawes yn asesu'r plant yn barhaol mewn pedair ffordd wahanol.

1. Wrth arsylwi'r plant yn gweithio ar dasgau bob dydd.
2. Marcio gwaith ysgrifenedig, arlunio ac arteffact.
3. Arsylwi'r plant yn gweithio ar dasg benodedig naill ai ar ei ben ei hun neu mewn grŵp.
4. Defnyddio Profion Safonol.

Ym mis Mai rhoddir profion cenedlaethol i flynyddoedd 2, 3, 4, 5 a 6 a cheir Asesiadau Athrawon Stadudol yn ogystal â hyn i flynyddoedd 2 a 6 (h.y. tua diwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2).

Adrodd i'r Rhieni

Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i'r rhieni yn flynyddol, yn ystod Tymor yr Haf. Rhoddir adroddiad targedau ysgrifenedig i bob plentyn yn ystod tymor yr Hydref.

Gwahoddir y rhieni i'r ysgol ddwywaith y flwyddyn, ym misoedd Tachwedd a Gorffennaf, i weld a thrafod gwaith eu plentyn. Yn ychwanegol i hyn gweithredir cynllun drws agored lle gall rhiant ffonio i wneud apwyntiad i weld athrawes ddosbarth neu'r brifathrawes i drafod gwaith eu plentyn neu unrhyw fater perthnasol addysgiadol arall.

Trefniadaeth Fugeiliol

Mae'r athrawesau dosbarth yn gyfrifol am gadw golwg ar unrhyw broblemau corfforol neu emosiynol a gwyd ymhlith disgyblion unigol gan geisio eu datrys. Cedwir cysylltiad agos rhwng y brifathrawes a'r staff ymhob achos. Gofynnir i'r rhieni gysylltu â'r pennaeth ar unwaith os oes problem gan blentyn.

Rydym yn cymryd pob gofal i sicrhau diogelwch y plant yn yr ysgol. Caiff mân ddoluriau eu trin gan yr athrawon. Os digwydd damwain mwy difrifol i unrhyw blentyn, cedwir record o'r digwyddiad, a chysylltir â'r rhieni cyn gynted â phosibl. Os bydd angen fe drosglwyddir y plentyn i dderbyn triniaeth feddygol.

Os bydd plentyn yn sâl yn ystod oriau ysgol fe gysylltir â rhiant. Mae'n bwysig cael rhif ffôn lle y gellir cyrraedd rhiant, aelod o'r teulu neu ffrindiau agos.

Os oes angen i athro/athrawes roi moddion i blentyn mae'n hanfodol bwysig fod *cyfarwyddiadau ysgrifenedig* cywir yn cael eu rhoi i'r athro/athrawes ymlaen llaw. Ni ddylai blentyn gadw meddyginiaeth yn ei fag ond dylid ei roi i aelod o staff wrth gyrraedd ysgol.

Polisi Diogelu Plant

Mae gan yr ysgol gyfrifoldeb i sicrhau lles pob disgybl ac felly mae gennym bolisi a chanllawiau diogelu plant. Efallai bydd yn ofynnol i ni i gyfeirio plentyn i'r asiantaethau statudol lles plant os credwn fod y plentyn neu blant eraill mewn perygl. Fe wnawn ymdrechu i weithio gyda rhieni/gwarcheidwaid ynglŷn â lles eu plentyn gan fod yn ddiuedd os yw eu plentyn ar fin neu wedi eu cyfeirio.

Byddai unrhyw gyfeiriad a wneir er lles y plentyn ac fe fyddai'r ysgol yn sicrhau bod rhieni /gwarcheidwaid yn cael eu hysbysu am ddatblygiad lles ac addysg y plentyn.

Mae copi o'r polisi ar gael yn yr ysgol.

Swyddog Diogelwch yr ysgol yw'r pennaeth dros dro, Mrs Laura Howells, a'r

Swyddog Amddiffyn Plant ar y Bwrdd Llywodraethol yw Mrs Rhinedd EytonJones.

Polisi Atal Bwlio

Bwlio yw'r awydd bwriadol ac ymwybodol i niweidio, bygwth neu godi ofn ar rywun drwy air neu weithred. Mae gan yr ysgol bolisi clir ar gyfer delio ag unrhyw achos o fwlio. Os oes gofid ar rieni am y mater hwn fe'u hannogir i drafod materion yn gyfrinachol gyda'r pennaeth.

Mae copi o'r polisi ar gael yn yr ysgol.

Disgyblaeth

Mae'r pennaeth a'i staff yn gwneud eu gorau i greu ysgol hapus a chyfeillgar i'r disgyblion.

Disgwylir i'r plant gydymffurfio â safonau ymddygiad yr ysgol, ac i reoli eu hunain mewn modd trefnus a chwrtais, ac i barchu hawliau ag eiddo eu cydddisgyblion, ymwelwyr ac aelodau o staff.

Nodir isod rhai o reolau pwysig yr ysgol. Disgwylir i'r plant:

- ddangos parch tuag at eu cyd-ddisgyblion ac oedolion
- ufuddhau i gyfarwyddiadau'r staff
- fod yn brydlon
- barchu llyfrau, offer, dodrefn a chyfarpar yr ysgol a'r amgylchedd
- barchu eiddo personol cyd-ddisgyblion ac i beidio â dod ag eiddo costus i'r ysgol
- weithio yn dawel a diffwdan yn ystod y gwersi
- gerdded bob amser tu fewn i'r ysgol
- ufuddhau i drefniadau dril tân
- beidio dod â photeli gwydr, 'gwm cnoi' na lolipops i'r ysgol. Caniateir i'r plant ddod a ffrwythau/dŵr i'r ysgol i'w bwyta/yfed yn ystod y dydd
- beidio gwisgo gemau gwerthfawr i'r ysgol; disgwylir i'r plant sy'n gwisgo clustdlysau wisgo'r math 'stud'; ni chaniateir gwisgo clustdlysau, wats, modrwyau ag ati yn ystod gwersi gemau a nofio
- beidio â gadael yr ysgol heb ganiatâd.

Gwisg Ysgol

Er nad yw yn orfodol fe anogir y plant i wisgo'r wisg ysgol. Dyma fanylion y wisg.

Bechgyn

Trowsus llwyd neu drowsus loncian las tywyll
Crys polo glas golau

Merched	Trowsus/sgert neu diwnig glas tywyll Crys polo/blows glas golau Ffrog haf 'gingham' glas a gwyn
Pawb	Crys chwys/siwmpwr/cardigan/fleece las tywyll

Ar adegau ffurfiol disgwylir i'r disgwylion wisgo crys gwyn a thei ysgol.

Gellir prynu'r wisg ysgol o Evans a Wilkins yng Nghaerfyrddin, Picton Sport neu Manhattan Marketing yn Llanelli neu wrth Tesco ar y We.

Mae'n ofynnol i blant newid i wersi Ymarfer Corff.

Tu fewn	Siorts, crys t neu bolo ac esgidiau addas
Tu fas	Fel uchod ond ar ddiwrnodau oer gellir gwisgo trowsus loncian a thop cynnes
Nofio	Trowsus/gwisg nofio, gogls a chap nofio

Mae'n bwysig bod *enw'r plentyn yn glir* ar ei ddillad gan gynnwys ei got a'i ddillad ymarfer corff.

Cinio Ysgol

Paratoir cinio yng nghegin Ysgol y Castell, Cydweli ac fe'i ddarperir yn ein ffreutur yn ddyddiol am bris penodedig. Darperir bwydlen arbennig fel bod angen. Mae pris y cinio yn newid yn ôl y wybodaeth a ddaw o'r Awdurdod Addysg Lleol. Dylid talu am brydiau ar *ddechrau'r* wythnos (dylid gwneud sieciau yn daladwy i 'Cyngor Sir Caerfyrddin'). Mae rhai teuluoedd yn gallu hawlio cinio rhad. Mae ffurflenni ar gael yn yr ysgol a gellir cael manylion pellach oddi wrth yr Awdurdod Addysg Lleol.

Y mae yna drefniadau i blant fwyta brechdanau o dan oruchwyliaeth yn y ffreutur.

Yn ystod yr awr ginio mae dwy gynorthwywraig yn gofalu am y plant.

Llaeth am Ddim

Mae cynllun gan yr awdurdod i ddarparu llaeth am ddim i blant y Cyfnod Sylfaen. I annog y plant i yfed llaeth rydym yn achlysurol yn cynnig ysgythaeth. Os nad ydych am i'ch plentyn dderbyn naill ai llaeth neu ysgythaeth a fydddech cystal â thrafod hyn gyda'r athrawes ddosbarth os gwelwch chi'n dda.

Gwasanaeth Iechyd

Mae ymwelwyr iechyd yn ymweld â'r ysgol o bryd i'w gilydd. Os oes gennych wrthwynebiad i'ch plentyn gael ei weld/gweld gan un o'r uchod rhaid rhoi gwybod i'r pennaeth.

Trefniant Diogelwch

Gofynnir i chi *beidio* â pharcio ar y llinellau melyn igam-ogam tu allan i gatiâu ffrynt a chefn yr ysgol.

Gofynnir i rieni sy'n casglu eu plant am 3.15pm i fynd i giât gefn yr ysgol a gofynnir iddynt hefyd ddod mewn i iard yr ysgol i dderbyn eu plant. Mae hyn er mwyn diogelu'r plant am nad oes palmant tu allan i giât gefn yr ysgol.

Gofynnir yn garedig i bob ymwelydd *gau* gatiâu'r ysgol ar bob achlysur. Rydym wedi sylwi fod y gatiâu yn cael eu cadw ar agor wrth i ymwelwyr ddod mewn i'r ysgol ond yn cael eu cau wrth i bobl fynd allan. A fyddech mor garedig â'n helpu i gau'r gatiâu bob tro.

Mae drysau ffrynt y prif adeilad ar glo yn ystod oriau ysgol. Mae clychau ar y drysau i ymwelwyr. Mae drysau dosbarthiadau 2 a 3 ar glo yn aml yn ystod y dydd a gweler cloch tu allan i ddosbarth 2.

Mae staff a phlant yr ysgol yn ymarfer dril tân yn rheolaidd.

Diogelwch Ffordd

Mae plant blwyddyn 6 yn derbyn gwersi beicio diogel yn ystod Tymor yr Haf.

Gwersylloedd

Mae plant blwyddyn 5 a blwyddyn 6 yn ymweld â Manor Adventure, Canolfan Yr Urdd yng Nghaerdydd neu Wersyll yr Urdd Llangrannog, am dri diwrnod bob blwyddyn. Maent yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau.

Gweithgareddau Eraill

Byddwn yn annog y plant i gymryd rhan mewn:

- cyngherddau a gwasanaethau ysgol
- mabolgampau
- athletau tu fas a thu fewn
- cystadlaethau'r Urdd
- cysylltiadau â'r ysgolion cyfun
- gweithgareddau'r gwasanaeth cerdd sirol
- ymweliadau ag orielau celf.

Ymweliadau Addysgiadol

Trefnir ymweliadau â lleoedd o ddi-ddordeb sy'n cyd-fynd â themâu'r tymor, e.e. Castell Henllys, Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru.

Yn aml telir am ymweliadau allan o Gronfa'r Ysgol, neu ceir cymorthdal gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Er hynny, oherwydd bod angen talu am fysiau ac ambell dro fynediad byddwn o bryd i'w gilydd yn gofyn i'r rhieni am gyfraniad ariannol. Rhoddir gwybodaeth trwy lythyr i'r rhieni am ymweliadau a rhaid iddynt arwyddo ffurflen ganiatad er mwyn i'r plentyn gael cymeryd rhan.

Polisi Codi Tâl

Penderfynodd y Llywodraethwyr bydd rhaid chodi tâl am y gwersi offerynnol a roddir gan yr athrawon teithiol. Gofynnir hefyd am gyfraniad o £15 at y bws sy'n mynd â phlant blynyddoedd 3–6 i'r pwll nofio.

Yn achlysurol ni fydd yr ysgol yn medru talu am holl gostau gweithgaredd. Wedyn fe fydd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon neu Gronfa'r Ysgol yn gwneud cyfraniad ac fe ofynnir am gyfraniad gwirfoddol wrth rieni i helpu gyda'r costau.

Telir am ymweliadau Manor Adventure/Canolfan yr Urdd yng Nghaerdydd a Gwersyll Llangrannog gan rieni/warchodwyr.

Cronfa'r Ysgol

Gosodir unrhyw arian a dderbynnir yng nghronfa'r ysgol (dylid gwneud sieciau yn daladwy i Gronfa Ysgol Glan-y-Fferi) ar wahan i arian ar gyfer digwyddiadau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Defnyddir yr arian er lles y plant. Mae'r cyfrifon yn cael eu harchwilio yn flynyddol.

Helpu Achosion Teilwng

Bob blwyddyn byddwn yn annog y plant i helpu eraill drwy gasglu at wahanol achosion teilwng e.e. gweithgareddau noddedig.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae pob rhiant a phob aelod o'r staff yn aelodau awtomatig o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ac mae croeso iddynt fynychu'r cyfarfodydd. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ymdrechion a chefnogaeth y rhieni. Dros y blynyddoedd prynwyd nifer o adnoddau drwy gyfraniadau hael y gymdeithas. Etholir swyddogion y gymdeithas yn flynyddol mewn cyfarfod cyffredinol a gynhelir yn ystod Tymor yr Hydref. Cyflwynir mantolen ariannol y gymdeithas i'r rhieni yn y cyfarfod blynyddol.

Ffotograffydd yr Ysgol

Mae ffotograffydd yn ymweld â'r ysgol i gymryd lluniau unigol, teuluol, a lluniau dosbarth. Pwysleisir nad oes unrhyw orfodaeth ar unrhywun i brynu lluniau.

Cau'r ysgol yn ystod tywydd gwael

Pan fydd tywydd gwael yn gwneud cau'r ysgol yn hanfodol fe gysylltir â rhieni i ofyn iddynt gasglu eu plant o'r ysgol a gwneir trefniadau i gludo gweddill y plant adref.

Os bydd rhaid cau'r ysgol achos tywydd gwael byddwn yn cysylltu â Chyngor Sir Gaerfyrddin a byddant yn rhoi'r wybodaeth ar eu gwefan <http://schools.carmarthenshire.gov.uk/schooldisruptions/>. Byddwn hefyd yn cysylltu â Radio Caerfyrddin ac efallai byddant yn cyfleu'r wybodaeth yma drwy eu rhaglen foreol.

Roedd y wybodaeth yn y Llawlyfr hwn yn gywir pan gafodd ei argraffu, ond gall newid o bryd i'w gilydd.

CROESO I YSGOL GLAN-Y-FFERI